**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 21 Hydref 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | J P Curtice | S J Gallagher |
| P R Hood-Williams | Y V Jardine | E T Kirchner |
| G J Tanner | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

**4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**5 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 16 Medi ac 1 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

**6 Cynllun Adfer - Rôl y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl. (Trafodaeth lafar).**

Roedd Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed yng Nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ers pandemig COVID-19.

Aeth ymlaen i amlinellu manylion adroddiad y cynllun adfer a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Hydref:

1. Ailddechrau (tymor byr – 4 mis) – ailgychwyn ac addasu ystod eang o wasanaethau'r cyngor;

2. Ailffocysu (tymor canolig – hyd at fis Mai 2022) – ymateb strategol i gefnogi'r ddinas i oresgyn yr argyfwng a thyfu ohono, gan gyflawni'n blaenoriaethau corfforaethol;
3. Ail-lunio (tymor hir – ar ôl Mai 2022) – strategaeth adfywio a datblygu tymor hwy y ddinas a'r sir.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor fod llawer o'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau fel arfer yn ystod y pandemig, mewn perthynas â cham cyntaf y cynllun adfer. Fodd bynnag, roedd rhai pethau fel rhedeg gwasanaethau dydd wedi'u hoedi.

Roedd gofal seibiant brys hefyd wedi parhau yn ystod y camau cychwynnol, gyda nifer y bobl yr oedd angen gofal seibiant brys arnynt wedi cynyddu. Dywedodd fod yn rhaid cydbwyso'r risg yn erbyn y rheini heb ofal a chefnogaeth ffurfiol lle'r oedd "cadw mewn cysylltiad" wedi bod yn hanfodol.

Er bod y gwasanaeth yn dal i fod yng nghanol cam cyntaf y cynllun adfer, roedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod ein darpariaeth frys ar waith ac yn addas i’r diben.

Aeth ymlaen i ddweud mai'r prif newid a gafwyd oedd bod y rhan fwyaf o'n gweithlu bron yn gweithio o'u cartrefi yn gyfan gwbl, ac eithrio rhai canolfannau amlddisgyblaethol yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Bu'n rhaid i'r staff hyn wneud rhywfaint o waith yn y swyddfa, a sicrhawyd bod y drefn hon yn ddiogel rhag COVID.

O ran cam 2 –agwedd ailffocysu’r Cynllun Adfer, teimlai y gallai'r Pwyllgor gynorthwyo â'r gwaith a fyddai'n cael ei wneud i gynllunio ar gyfer argyfwng y gaeaf.

Yn ogystal, teimlai y gallai'r Pwyllgor gynorthwyo gyda'u helfen gyd-gynhyrchu barhaus o'r llynedd gan ganolbwyntio ar:

- Drawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl – drwy gyd-gynhyrchu;
- Gwasanaethau Iechyd a Chymunedol – galluogi pobl i fod yn ddiogel ac aros yn eu cartrefi eu hunain.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am y diweddariad. Dywedodd y byddai'n cyfarfod ag Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant i benderfynu ar y pynciau i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl eu hystyried yn ystod 2020-2021.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 7 Cynllun Gwaith 2020-2021. (Ar Lafar)

Fel y dywedwyd eisoes, byddai'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2021 yn cael ei gwblhau gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol a'i gyflwyno i'w drafod yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 18 Tachwedd 2020.

Gofynnodd Amy Hawkins, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, a fyddai'n bosib i'r Pwyllgor ystyried cynnwys gwaith ar "les gofalwyr" yn ei Gynllun Gwaith. Dywedodd fod y pwnc hwn yn cynnwys agweddau ar Iechyd Meddwl, gofal cymhleth, ymatebion cymunedol ac ataliol ac y byddai ei thîm yn canolbwyntio ar hyn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Dywedodd Dave Howes y byddai hefyd yn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw waith cyd-gynhyrchu a drefnwyd yn y tymor byr er mwyn iddynt allu ystyried eu cyfranogiad.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.59 pm

**Cadeirydd**